

# **Gweithredu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 – diwygiadau i ffioedd tribiwnlysoedd**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 23 Tachwedd 2022

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 4 Ionawr 2023

A decorative graphic in the bottom right corner consisting of a cluster of light blue triangles of various sizes and orientations. A dark blue line starts from the left edge of the page, extends horizontally, and then follows the path of the triangles, connecting several of their vertices.





Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Gweithredu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 – diwygiadau i ffioedd tribiwnlysoedd**

Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

**At:** Apelwyr mewnfudo a lloches, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, a mudiadau gwirfoddol sydd â diddordeb mewn ceisiadau mewnfudo a lloches.

**Hyd:** O 23/11/2022 tan 04/01/2023

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** Y Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain / London SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 4 Ionawr 2023 at:  
Y Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain / London SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

# Cynnwys

<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>4</b>
Cefndir: Ffioedd yn y Siambr Mewnfudo a Lloches	4
Cynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo	6
<b>Y cynigion</b>	<b>7</b>
Asesiadau oedran	7
Apeliadau carlam ar gyfer pobl a gedwir yn gaeth (ADA)	8
Apeliadau cyflym i'r Uwch Dribiwnlys	9
<b>Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg</b>	<b>12</b>
Asesiad Effaith	12
Cydraddoldeb	12
Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg	13
<b>Holiadur</b>	<b>14</b>
<b>Gwybodaeth amdanoch chi</b>	<b>15</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>16</b>
Cwynion neu sylwadau	16
Copiâu ychwanegol	16
Cyhoeddi ymateb	16
Grwpiau cynrychioladol	16
Cyfrinachedd	16
<b>Egwyddorion ymgynghori</b>	<b>18</b>



# Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried nifer o newidiadau i'r strwythur ffioedd sydd mewn grym yn Siambrau Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Bwriad y newidiadau hyn yw cefnogi rhai diwygiadau sydd ar y gweill i weithrediad y Siambur Mewnfudo a Lloches, ar ôl pasio Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.

Mae Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 (NABA) yn rhoi nifer o newidiadau deddfwriaethol ar waith i gefnogi Cynllun Newydd y Llywodraeth ar gyfer y rhaglen Mewnfudo. Mae gan y rhaglen hon dri phrif amcan:

- Cynyddu tegwch y system er mwyn amddiffyn a chefnogi'r rhai y mae angen lloches arnynt yn well;
- Atal mynediad anghyfreithlon i'r DU, gan dorri'r model busnes o rwydweithiau smyglo pobl ac amddiffyn bywydau'r rheini maent yn eu peryglu; a
- Symud yr unigolion hynny sydd heb hawl i fod yn y DU yn haws

Yn y newidiadau sy'n deillio o gyflwyno Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022, cyflwynir llwybr carlam ar gyfer apeliadau i bobl a gedwir yn gaeth (ADA), hawl apelio statudol ar gyfer asesiadau oedran yn y Siambrau Mewnfudo a Lloches ac apeliadau cyflym sy'n gallu cael eu cynnal yn yr Uwch Dribiwnlys.

I gefnogi'r newidiadau newydd hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig gwneud dau fân ddiwygiad i'r strwythur ffioedd sy'n gweithredu yn yr IAC. Dyma'r newidiadau:

- Cyflwyno esemptiad rhag talu ffi ar gyfer y broses apeliadau carlam i bobl a gedwir yn gaeth (ADA); a
- Chyflwyno ffioedd apelio union yr un fath yn yr Uwch Dribiwnlys ag yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, fel bod yr un ffi'n daladwy gan y rhai sydd ag apêl gyflym yn yr Uwch Dribiwnlys.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried pa ffioedd ddylai fod yn daladwy ar gyfer apeliadau asesu oedran. Mae'n cynnig y dylai'r ffioedd sy'n daladwy ar hyn o bryd ar gyfer materion mewnfudo a lloches yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd fod yn berthnasol i'r math newydd hwn o apêl.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am chwe wythnos ac yn dod i ben ar 4 Ionawr 2023. Edrychwn ymlaen at glywed barn y rheini sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn. Yn

amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw cyflwyno'r newidiadau hyn i gyd-fynd â chychwyn y darpariaethau perthnasol yn NABA.

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi nifer o newidiadau i'r ffioedd a godir yn Siambrau Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Mae'r newidiadau hyn i gyd-fynd â gweithredu diwygiadau a basiwyd yn Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a fydd yn dechrau yn 2023. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y rheini sydd â diddordeb yng ngweithrediad y Siambr Mewnfudo a Lloches ledled y DU.

## Cefndir: Ffioedd yn y Siambr Mewnfudo a Lloches

### Ffioedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf

2. Mae Siambr Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf ("y FtTIAC") yn delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Swyddfa Gartref ynghylch hawliadau am ganiatâd i aros yn y DU, alltudio o'r DU a gwrthod caniatâd mynediad i'r DU. Mae hefyd yn delio â cheisiadau am fechnïaeth mewnfudo gan bobl sy'n cael eu dal gan y Swyddfa Gartref ar faterion mewnfudo. Cafodd y FtTIAC 39,000 o geisiadau yn 2021/22, gyda 7,000 yn ymwneud â lloches ac amddiffyn, 13,000 yn ymwneud â hawliau dynol a 19,000 yn ymwneud â hawliau symudiad rhydd i ddinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA).
3. Mae ffioedd wedi bod ar waith yn y FtTIAC ers 2011, o dan bŵer adran 42 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Nodir y ffioedd yng Ngorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) 2011. Mae amcanion y Llywodraeth o ran codi ffioedd yn yr IAC yn debyg i'w nodau ar draws pob llys a thribiwnlys, sef:
  - a. Sicrhau bod defnyddwyr yn cyfrannu at gostau'r gwasanaeth, lle gallant fforddio gwneud hynny, gan leihau'r costau cyffredinol i'r trethdalwr cyffredinol;
  - b. Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y tribiwnlys; a
  - c. Diogelu mynediad at y tribiwnlys ar gyfer y rheini sydd ei angen.
4. O dan y trefniadau presennol yn y FtTIAC, codir ffi pan fydd person yn gwneud cais i apelio yn erbyn penderfyniad mewnfudo neu loches gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r ffi a godir yn dibynnu ar a yw'r apelydd yn ceisio penderfyniad gan y tribiwnlys yn dilyn gwrandawriad llafar neu ystyriaeth o'r apêl ar sail y papurau heb



fod yn bresennol. Ar hyn o bryd mae'r ffioedd yn £80 am benderfyniad ar sail y papurau a £140 am wrandawriad llafar.

5. Fodd bynnag, ni ddylai ffioedd byth fod yn rhwystr i bobl sy'n defnyddio'r tribiwnlys. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol a chyfansoddiadol i sicrhau nad yw mynediad at gyfiawnder yn cael ei wrthod. Mae nifer o fesurau diogelu ar waith mewn deddfwriaeth i sicrhau hyn. Gellir categorio'r mesurau diogelu hyn mewn tair ffordd:
  - a. **Oherwydd y math o achos:** Mae rhai mathau o geisiadau wedi'u heithrio rhag ffioedd oherwydd natur yr apêl – mae hyn yn cynnwys apeliadau sy'n ymwneud ag amddifadu o ddinasyddiaeth neu ddiddymu statws amddiffyn. Mewn achosion lloches, gellir gohirio talu'r ffi er mwyn peidio ag oedi cyn gwneud penderfyniad ar statws amddiffyn yr unigolyn.
  - b. **Oherwydd amgylchiadau personol yr apelydd:** Nid yw ffioedd yn daladwy ar rai achlysuron oherwydd amgylchiadau personol yr apelydd – mae hyn yn cynnwys os ydynt yn derbyn cymorth cyfreithiol neu gymorth lloches, neu os ydynt yn blentyn a gefnogir gan awdurdod lleol (neu'n rhiant i blentyn o'r fath). Nid yw ffioedd apelio hefyd yn daladwy mewn nifer fach o achosion lle mae'r unigolyn wedi'i eithrio o'r gofyniad i dalu ffi am y cais gwreiddiol – mae'r achosion hyn fel arfer yn ymwneud â diogelu hawliau Confensiwn yr unigolyn fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998<sup>1</sup>.
  - c. **Oherwydd amgylchiadau ariannol yr apelydd:** Yn olaf, mae cynllun Help i Dalu Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bodoli i gefnogi mynediad at gyfiawnder i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd talu ffi'r llys neu'r tribiwnlys. Gellir dyfarnu dileu ffi'r llys yn llawn neu'n rhannol i'r defnyddwyr hyn, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ariannol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor hefyd y pŵer i ddileu ffioedd lle bo amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n cyfiawnhau dileu ffi. Yn gyffredinol, mae hyn yn berthnasol os yw amgylchiadau personol neu ariannol eithriadol yr ymgeisydd yn golygu na all dalu'r ffi. Mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd yn gweithredu ar gyfer apeliadau mewnfudo a lloches a ddaw o fewn y Deyrnas Unedig.

## Yr Uwch Dribiwnlys

6. Mae'r Uwch Dribiwnlys (yr "UTIAC") yn gyfrifol am ymdrin ag apeliadau sy'n cael eu dwyn ymlaen o benderfyniadau a wnaed gan y FtTIAC mewn achosion mewnfudo. Mae hefyd yn delio â cheisiadau am adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus lle bônt yn ymwneud â materion mewnfudo, lloches a

---

<sup>1</sup>Nodir yn Rheoliadau Mewnfudo a Chenedligrwydd (Ffioedd) 2018

hawliau dynol. Yn 2020/21, derbyniodd yr UTIAC tua 2,400 o apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y FtTIAC a thua 1,900 o adolygiadau barnwrol.<sup>2</sup>

7. Mae Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 yn nodi'r ffioedd sydd i'w codi yn yr Uwch Dribiwnlys. O'i gymharu â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, codir llai o ffioedd yn yr Uwch Dribiwnlys. Er bod ffioedd yn daladwy am adolygiadau barnwrol mewnfudo, nid oes ffioedd yn daladwy am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, nac am y prif apêl lle rhoddir caniatâd. Ar gyfer achosion adolygiad barnwrol lle mae ffioedd yn daladwy, mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd ar gael i gefnogi'r rhai a allai fod angen cymorth i fforddio eu ffi.
8. Ar draws y ddwy haen, derbyniodd y Weinyddiaeth incwm o ffioedd (net o ostyngiadau) gan y Siambwr Mewnfudo a Lloches yn 2021/22 o £5m, o'i gymharu â chost rhedeg y tribiwnlys o £108m<sup>3</sup>. Felly, mae'r Llywodraeth yn adennill oddeutu 5% o'i chostau yn y Siambwr Mewnfudo a Lloches gan ei defnyddwyr. Mae'r gweddill yn dod o dan drethiant cyffredinol.

## Cynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo

9. Nod y Cynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo (NPI) yw sicrhau bod system mewnfudo'r DU yn cael ei diwygio'n gadarn, yn deg ac yn dosturiol. Ei nod yw gwneud hynny drwy ddiwygiadau o'r dechrau i'r diwedd er mwyn gallu penderfynu ar hawliadau dilys yn gynt, gan fynd i'r afael â'r graddau y gall pobl rwystro'r broses symud ymlaen drwy hawliadau, apeliadau neu gamau cyfreithiol mynych neu anhaeddiannol, gan gynnwys tegwch, sicrhau mynediad at gyfiawnder a chynnal rheolaeth y gyfraith.
10. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am nifer o fesurau NPI, ac mae cyflwyno i) apeliadau asesu oedran, ii) apeliadau carlam ar gyfer pobl a gedwir yn gaeth a iii) apeliadau cyflym yn yr Uwch Dribiwnlys yn flaenoriaethau ar gyfer gweithredu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 (NABA). Mae'r mesurau hyn wedi'u cynllunio i ddarparu mynediad effeithlon at gyfiawnder fel rhan o'r diwygiadau yn yr NPI.
11. Mae'r bennod ganlynol yn nodi manylion y tri mesur hyn, a'n cynigion ar gyfer ffioedd ac eithriadau tribiwnlysoedd.

---

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/tribunal-statistics-quarterly-january-to-march-2022>

<sup>3</sup> Mae ffigur gwariant y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches yn cynnwys gorbenion a rennir

# Y cynigion

## Asesiadau oedran

12. Mae'r NABA yn cyflwyno hawl apelio newydd ar gyfer pobl sy'n anghytuno ynghylch oedran, sy'n destun rheolaeth fewnfudo. Pan fo asesiad oedran wedi ei gynnal o dan adran 50 neu 51 o NABA gan berson dynodedig, gellir apelio yn ei erbyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.
13. Ar hyn o bryd, dim ond drwy adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol a'r Uwch Dribiwnlys y gellir anghytuno ag asesiadau oedran. Y ffi i wneud cais am ganiatâd i apelio yn yr Uwch Dribiwnlys yw £154, ac os rhoddir caniatâd, y ffi ar gyfer y gwrandawriad ei hun yw £770. Fel arfer, mae 50-100 o adolygiadau barnwrol y flwyddyn yn ymwneud ag asesiadau oedran mewn materion mewnfudo a lloches. Gan fod y paramedrau ar gyfer apelïadau yn ehangach na'r rhai ar gyfer adolygiad barnwrol, disgwylir i nifer yr apelïadau asesu oedran yn yr FtTIAC fod yn uwch na nifer yr adolygiadau barnwrol sydd wedi cyrraedd UTIAC.
14. Rydym wedi ystyried pa ffi y dylid ei chodi am y llwybr apêl newydd hwn sydd ar gael yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Gan fod y penderfyniad wedi'i wneud i ddarparu apêl statudol, rydym o'r farn na fyddai'n briodol codi'r ffioedd cyfredol ar gyfer adolygiadau barnwrol ar yr apelydd. Yn hytrach, bydd apelïadau asesu oedran yn apelïadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â "materion mewnfudo neu lloches" y mae ffioedd apêl yn daladwy ar eu cyfer ar hyn o bryd dan Orchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Mewnfudo a Lloches). Felly, rydym yn cynnig y dylai'r system ffioedd sydd ar waith yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod yn berthnasol, sy'n golygu bod ffi o £80 yn daladwy os yw'r ymgeisydd yn cydsynio i benderfyniad wedi'i wneud ar sail y papurau, a £140 os ydynt yn dymuno cael gwrandawriad llafar.
15. Byddai hyn yn unol â'r sefyllfa gyffredinol ynghylch ffioedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf – sef ceisio cyfraniad gan ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd at gost y gwasanaethau maent yn gwneud cais amdanynt. Codir ffioedd am yr holl faterion mewnfudo a lloches mae'r Tribiwnlys yn ymdrin â nhw, oni bai fod eithriad yn berthnasol. Nid ydym yn gweld rheswm pendant pam y dylai apelïadau asesu oedran gael eithriad penodol.
16. Gan fod ffioedd ar gyfer apelïadau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn is na'r rhai ar gyfer adolygiad barnwrol yn yr Uwch Dribiwnlys, bydd yn llai costus i berson apelio yn erbyn penderfyniad asesu oedran o dan y drefn newydd nag ydyw ar hyn o bryd. Ar ben hynny, bydd y mesurau diogelu sy'n berthnasol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (a

nodir ym mharagraff 6) yn berthnasol i gynorthwyo apelwyr gyda'u ffioedd – er nad ydynt i gyd yn gymwys am adolygiadau barnwrol.

17. Rydym wedi ystyried a yw'r mesurau diogelu sy'n bodoli ar hyn o bryd i gefnogi pobl i gyflwyno eu hapêl i'r tribiwnlys (paragraff 6) yn ddigonol ar gyfer apeliadau asesu oedran. Rydym ni o'r farn eu bod yn ddigonol. Ar ben hynny, mae Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 yn darparu bod apeliadau asesu oedran o fewn cwmipas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu y bydd ymgeiswyr sy'n pasio'r prawf modd cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim, ac felly'n cael eu heithrio rhag talu ffi.

**Cwestiwn 1: Gan nodi bod y rhain yn is na'r ffioedd sy'n daladwy ar hyn o bryd i ddwyn achos adolygiad barnwrol o asesiad oedran, a ydych yn cytuno y dylid codi ffioedd Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer apeliadau asesu oedran? A ydych yn cytuno bod y mesurau diogelu presennol yn ddigonol i sicrhau mynediad i'r tribiwnlys ar gyfer yr achosion hyn?**

## **Apeliadau carlam ar gyfer pobl a gedwir yn gaeth (ADA)**

18. Mae'r NABA yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd wneud rheolau ar gyfer llwybr carlam rhai apeliadau mewnfudo a lloches a wneir gan bobl a gedwir yn gaeth, a ystyrir yn debygol o fod yn addas ar gyfer penderfyniad cyflym. Os yw penderfyniad y Swyddfa Gartref wedi'i ardystio fel penderfyniad sy'n addas ar gyfer apêl ADA, rhaid i'r apelydd gyflwyno'i apêl o fewn 5 diwrnod gwaith. Rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu ar yr apêl a rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw o fewn 25 diwrnod gwaith i gyflwyno'r apêl. Rhaid penderfynu ar unrhyw geisiadau am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r ymgeisydd gael hysbysiad o benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Bydd y mathau o apeliadau a allai fod yn gymwys ar gyfer llwybr yr ADA yn ogystal â chyfyngiadau eraill, yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.
19. Byddai apeliadau fel arfer yn cynnwys ffi o £80 os yw'r ymgeisydd yn cydsynio i benderfyniad wedi'i wneud ar sail y papurau, a £140 os ydynt yn dymuno i benderfyniad gael ei wneud yn dilyn gwrandawriad llafar. Ni wahaniaethir yn y Gorchymyn Ffioedd ynghylch a yw'r apelydd yn cael ei gadw'n gaeth, naill ai mewn Canolfan Symud Ymlaen ar gyfer Mewnfudwyr (IRC) neu mewn carchar i Droseddwyr o Dramor. Pan fydd apelyddion yn cael eu cadw mewn IRC ar hyn o bryd a'u bod yn destun gweithdrefn gweinyddol Apeliadau Mewnfudwyr a Gedwir yn Gaeth GLITEF, mae ffioedd fel arfer yn cael eu hepgor o dan bŵer eithriadol yr

Arglwydd Ganghellor i ddileu ffioedd oherwydd yr anawsterau ymarferol a threfniadol sy'n wynebu'r unigolion hyn i dalu'r ffi.

20. Bydd natur y broses ADA yn arwain at heriau logistaidd tebyg. Bydd gofyn i apelyddion baratoi eu hachos a chyflwyno eu hapêl o fewn 5 diwrnod i dderbyn penderfyniad y Swyddfa Gartref. Rydym yn cydnabod y risg, mewn sefyllfa o'r fath, y gallai gofyniad i gael gafael ar arian a thalu'r ffioedd ar gyfer apêl fod yn rhwystr i allu apelydd i fodloni'r amseroedd brys hyn, ac felly eu gallu i ddwyn achos o gwbl. O ganlyniad, rydym yn dod i'r casgliad bod dadl gref dros eithrio ffioedd ar gyfer y rhai sy'n destun y broses ADA i sicrhau bod mynediad at y tribiwnlys yn cael ei gynnal.
21. Wrth ystyried a ddylai apêl fod yn destun y broses ADA, bydd asesiad yn cael ei wneud fesul achos.

## **Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylid cael esemptiad rhag talu ffioedd apeliadau ADA i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf neu'r Uwch Dribiwnlys?**

### **Apeliadau cyflym i'r Uwch Dribiwnlys**

22. Mae NABA yn cyflwyno llwybr apêl newydd ar gyfer hawliadau amddiffyn penodol a hawliadau hawliau dynol a wrthodir (drwy adran newydd 82A o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002). Mae hyn yn darparu hawl i apelio'n uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys o dan weithdrefn gyflym a lle nad oes hawl i apelio ymhellach. Bydd hawliad a wrthodir ond yn cael ei ardystio ar gyfer apêl gyflym lle bydd yr hawliad wedi'i wneud tra bod Rhybudd Symud Ymlaen â Blaenoriaeth yn ei le a bod yr hawliad am hawliau dynol, neu'r hawliad amddiffyn wedi'i wneud "yn hwyr", h.y. ar ôl y dyddiad cau a nodir yn yr hysbysiad hwnnw, heb reswm da. Ceir darpariaeth hefyd yn yr NABA i sicrhau bod apeliadau sy'n gysylltiedig ag apêl gyflym (sef y rhai a wneir ar ôl i apêl gyflym gael ei chynnal neu a oedd ar droed pan ardystiwyd apêl gyflym) hefyd yn cael eu clywed yn yr UTIAC.
23. Ar hyn o bryd, codir ffioedd yn y FtTIAC ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Swyddfa Gartref, yn amodol ar ddarpariaethau ychwanegol y Gorchymyn Ffioedd sy'n darparu ar gyfer esemptiadau a dileu ffioedd. Fodd bynnag, nid oes ffioedd o'r fath ar gyfer apeliadau yn yr Uwch Dribiwnlys. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf y mae apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Swyddfa Gartref yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, nid yn yr Uwch Dribiwnlys. Ni fydd hyn yn digwydd ar ôl i'r llwybr apêl cyflym gael ei roi ar waith, ac ar yr adeg honno gellir cyflwyno a chlywed y prif apeliadau yn yr Uwch Dribiwnlys ac yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae lleoliad yr apêl yn dibynnu ar weithredoedd yr apelydd, gan fod yr apêl gyflym yn cael ei hardystio dim ond pan fo'r hawliad wedi'i wneud "yn hwyr" heb reswm da. Nid ydym yn credu bod

rheswm cyfiawnadwy dros wahaniaeth yn y ffordd yr ymdrinnir â ffioedd rhwng apeliadau yn erbyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref, yn seiliedig ar y Tribiwnlys lle gwrandewir ef.

24. Ein cynnig felly yw defnyddio strwythur ffioedd FtTIAC gydag apeliadau cyflym yr Uwch Dribiwnlys. Bwriad y polisi yw sicrhau bod apelyddion yn cael eu trin yn gyfartal, ni waeth i ba Dribiwnlys y mae'n rhaid iddynt apelio. Mae hyn yn cydnabod bod sylwedd yr apêl yn y naill haen neu'r llall yr un fath, bydd y costau i'w gweinyddu yn debyg, ac felly ni ellir cyfiawnhau unrhyw wahaniaeth mewn ffioedd. Dyma'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud:
- a. **Ffioedd:** Byddwn yn cyflwyno ffioedd i'w talu ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref a gyflwynwyd yn yr Uwch Dribiwnlys. Bydd hyn yn golygu apeliadau cyflym ac apeliadau cysylltiedig penodol. Bydd yr un gwerthoedd ffi (£80 heb wrandawriad; £140 os gofynnir am wrandawriad) yn berthnasol fel yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf.
  - b. **Mesurau Diogelu:** Rydym yn cynnig cyflwyno'r mesurau diogelu ar gyfer esemptiadau a dileu ffioedd sydd ar waith yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr Uwch Dribiwnlys. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi ym mharagraff 6 yr ymgynghoriad hwn.
  - c. **Dyfarnu costau:** Pe bai'r cynigion uchod yn cael eu gweithredu, byddem yn ceisio gofyn i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ystyried gwneud yr un rheolau costau yn yr Uwch Dribiwnlys ag yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, lle caniateir apêl, caiff y Tribiwnlys orchymyn i'r atebydd dalu unrhyw ffioedd y gallai'r apelydd fod wedi'u talu neu y bu'n ofynnol iddo eu talu, fel costau.
25. Byddai'r ddau newid cyntaf hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy ddiwygio Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 gan ddefnyddio offeryn statudol. Y trydydd newid fyddai i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ei ystyried.
26. Drwy sicrhau bod yr un system ffioedd yn berthnasol yn yr Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, nid ydym yn credu y bydd unrhyw apelyddion dan anfantais oherwydd y newid hwn. Pan fydd apelydd yn mynd drwy'r broses apelio gyflym newydd ac apelio i'r Uwch Dribiwnlys, byddai'n talu'r un ffioedd â phe bai wedi apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae nifer yr apelyddion y mae'n ofynnol iddynt apelio i'r Tribiwnlys Uwch Haen yn debygol o fod yn isel. Caiff yr apelyddion hyn ddefnyddio unrhyw esemptiadau neu ostyngiadau perthnasol a all eu cefnogi i dalu eu ffi a chyflwyno eu cais.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylai'r un strwythur ffioedd sy'n berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Swyddfa Gartref yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod yn berthnasol i apeliadau cyflym i'r Uwch Dribiwnlys?**

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

27. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ceisio dyblygu'r ffioedd presennol ar gyfer y llwybrau apelio newydd. Mae hyn yn golygu y byddai apelyddion yn gorfod talu'r un ffioedd â phe baent yn dwyn eu hapêl dan y system bresennol cyn gweithredu NABA. Ar gyfer apelïadau asesu oedran, byddai apelyddion yn well eu byd dan y cynllun arfaethedig nag o dan y system bresennol, lle mae'n ofynnol iddynt dalu ffioedd Adolygiad Barnwrol uwch i herio penderfyniad asesu oedran. Nid ydym yn disgwyl y bydd y newidiadau'n cael effaith negyddol ar yr apelyddion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt nhw. Felly, nid oes disgwyl i effaith y newidiadau a gynigir yn y ddogfen hon fod yn sylweddol. Ar sail hyn, ni chynhaliwyd asesiad effaith i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn.

## Cydraddoldebau

28. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygu polisi, ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldeb. Yn gryno, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb roi sylw i'r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:
- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
  - datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
  - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.
29. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchoddedig perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.
30. Ein hasesiad ni yw nad yw'r newidiadau arfaethedig i'r strwythur ffioedd yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf, gan y byddant yn berthnasol i bawb yr effeithir arnynt ac ni chredir eu bod yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn



llai ffafriol oherwydd eu nodwedd warchoddedig. Am resymau tebyg, nid ydym yn credu y byddai unigolion â nodweddion gwarchoddedig dan anfantais fawr oherwydd y cynlluniau hyn, ac os bydd unrhyw effaith annisgwyl, dylai'r gostyngiadau a'r esemptiadau sydd ar waith yn y Gorchmynion Ffioedd liniaru'r effaith hon.

## **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

31. Byddai'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei weithredu, hefyd yn effeithio ar y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys newidiadau i ffioedd sydd hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr y llysoedd sy'n siarad Cymraeg, er na ddylai amharu ar eu dealltwriaeth o'r ffioedd yn anghymesur.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 1:** Gan nodi bod y rhain yn is na'r ffioedd sy'n daladwy ar hyn o bryd i ddwyn achos adolygiad barnwrol o asesiad oedran, a ydych yn cytuno y dylid codi ffioedd Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer apeliadau asesu oedran? A ydych yn cytuno bod y mesurau diogelu presennol yn ddigonol i sicrhau mynediad i'r tribiwnlys ar gyfer yr achosion hyn?

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno y dylid cael esemptiad rhag talu ffioedd apeliadau ADA i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf neu'r Uwch Dribiwnlys?

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai'r un strwythur ffioedd sy'n berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Swyddfa Gartref yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf fod yn berthnasol i apeliadau cyflym i'r Uwch Dribiwnlys?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig? A oes unrhyw addasiadau posibl y dylem eu hystyried er mwyn lleihau'r effaith hon?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 4 Ionawr 2023 at:

## **Fees Policy**

Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

**E-bost:** [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

## **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## **Copiâu ychwanegol**

Mae rhagor o gopiâu papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk>.

Mae modd gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy anfon e-bost at Bolisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

## **Cyhoeddi ymateb**

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## **Grwpiau cynrychioladol**

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## **Cyfrinachedd**

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth

(sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf)





© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:  
[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Bolisi Ffioedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)